Planning Inspectorate
Arolygiaeth Gynllunio

National Infrastructure
Planning Inspectorate
c/o QUADIENT
69 Buckingham Avenue
Slough
SL1 4PN

Gwasanaethau Cwsmeriaid: 0303 444 5000

e-bost: connahsquay@planninginspectorate.gov.uk

Yr holl bartïon â buddiant, partïon statudol ac unrhyw unigolyn arall a wahoddwyd i'r cyfarfod rhagarweiniol

Eich Cyf:

Ein Cyf: EN010166

Dyddiad: 9 Rhagfyr 2025

Annwyl Syr/ Fadam

**Deddf Cynllunio 2008 – adrannau 88 ac 89 a Rheolau Cynllunio Seilwaith (Gweithdrefn Archwilio) 2010 – rheolau 4, 6, 9 a 13**

**Cais gan Uniper UK am orchymyn yn rhoi cydsyniad datblygu ar gyfer Prosiect Pŵer Carbon Isel Cei Connah (EN010166)**

**Penodi'r Awdurdod Archwilio, gwahoddiad i'r cyfarfod rhagarweiniol a hysbysiad o wrandawiadau**

Fy enw i yw Nick Ely, ac fe'm penodwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol i fod yn Awdurdod Archwilio (ExA) i gynnal archwiliad o'r cais uchod. Gellir gweld copi o'r hysbysiad penodi o dan y tab dogfennau ar dudalen we'r prosiect ar y wefan Dod o Hyd i Brosiect Seilwaith Cenedlaethol (tudalen we'r prosiect).

Hoffwn ddiolch i'r rhai ohonoch a gyflwynodd sylwadau perthnasol. Mae'r sylwadau hyn wedi bod o gymorth i mi wrth ystyried sut i archwilio'r cais hwn.

**Gwahoddiad i'r cyfarfod rhagarweiniol**

Mae'r llythyr hwn yn eich gwahodd i'r cyfarfod rhagarweiniol i drafod **y weithdrefn** ar gyfer archwilio'r cais uchod.

| Dyddiad | Amser dechrau | Lleoliad a manylion ymuno |
|---|---|---|
| **13 Ionawr 2026** | **Cofrestru a seddau ar gael yn y lleoliad o:**<br>**09:30 o'r gloch**<br>**Proses gofrestru rithwir o:**<br>**09:45 o'r gloch**<br>**Cyfarfod rhagarweiniol yn dechrau:**<br>**10:00 o'r gloch** | Gwesty'r Village - Chester St David's<br>Parc Dewi Sant, Ewloe,<br>Glannau Dyfrdwy CH5 3YB<br>ac<br>yn rhithwir gan ddefnyddio Microsoft Teams<br>Bydd cyfarwyddiadau llawn ar sut i ymuno ar-lein neu dros y ffôn yn cael eu rhoi o flaen llaw i'r rhai sydd wedi rhag-gofrestru |
| **PWYSIG:** Fe ddylai'r cyfarfod rhagarweiniol orffen cyn 1.00pm ar 13 Ionawr 2026. Fodd bynnag, trefnwyd cyfnod wrth gefn ar gyfer 2.00pm ar yr un diwrnod i ganiatáu ar gyfer ailgydio yn y cyfarfod mewn amgylchiadau eithriadol, er enghraifft os bydd methiant technoleg. Ni fydd angen y cyfnod wrth gefn fel arfer. Bydd yr ExA yn cadarnhau hynny ar ddiwedd y cyfarfod rhagarweiniol a rhoddir gwybod amdano ar dudalen we'r prosiect). | | |

**Mae'n rhaid i chi gofrestru trwy lenwi'r ffurflen cymryd rhan mewn digwyddiad erbyn 30 Rhagfyr 2025 os ydych yn bwriadu cymryd rhan yn y cyfarfod rhagarweiniol a darparu'r holl wybodaeth y gofynnir amdani (gweler isod).**

Os ydych eisiau arsylwi'r cyfarfod rhagarweiniol yn unig, nid oes angen i chi gofrestru oherwydd byddwch yn gallu naill ai:

**1.** gwylio ffrwd fyw o'r digwyddiad – bydd dolen i'r ffrwd fyw ar gael ar dudalen we'r prosiect yn fuan cyn y trefnwyd i'r digwyddiad ddechrau

**2.** gwylio recordiad o'r digwyddiad a fydd yn cael ei gyhoeddi ar dudalen we'r prosiect yn fuan ar ôl i'r digwyddiad orffen

Fel arall, gallwch ddod i'r digwyddiad yn y lleoliad i arsylwi'r trafodion; fodd bynnag, er mwyn sicrhau bod digon o seddau ar gael yn y lleoliad, gofynnwn i chi gofrestru'ch bwriad i fynychu er mwyn **arsylwi yn unig** erbyn **30 Rhagfyr 2025** gan ddefnyddio'r **ffurflen cymryd rhan mewn digwyddiad**. Sylwer efallai na fydd

modd cymryd rhan ar y diwrnod os nad ydych wedi cofrestru'ch dymuniad i siarad erbyn **30 Rhagfyr 2025**.

**Diben y cyfarfod rhagarweiniol**

Diben y cyfarfod rhagarweiniol yw rhoi cyfle i gyflwyno sylwadau i mi ynglŷn â sut y dylid archwilio'r cais. Felly, bydd yr ExA yn cyfyngu cwmpas y cyfarfod rhagarweiniol i ystyried **sut y bydd y cais yn cael ei archwilio**. Gweler **atodiad B** i'r llythyr hwn a nodyn cyngor yr Arolygiaeth Gynllunio Cyngor i aelodau'r cyhoedd: Camau'r broses NSIP a sut gallwch leisio'ch barn i gael rhagor o wybodaeth.

**Nid** yw'r cyfarfod rhagarweiniol yn gyfle i chi roi eich barn am yr hyn rydych yn ei hoffi neu ddim yn ei hoffi am y cais. Bydd rhinweddau neu anfanteision y cais yn cael eu hystyried pan fydd yr archwiliad yn dechrau, a fydd yn digwydd ar ôl i'r cyfarfod rhagarweiniol orffen. Bydd yr holl faterion perthnasol a phwysig yn cael eu hystyried pan fyddaf yn gwneud argymhelliad i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiogeledd Ynni a Sero Net, a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol yn yr achos hwn.

Rhoddir yr agenda ar gyfer y cyfarfod yn **atodiad A** i'r llythyr hwn. Fe'i gosodwyd yn dilyn fy asesiad cychwynnol o'r prif faterion sy'n codi o ddarllen dogfennau'r cais a'r sylwadau perthnasol a dderbyniwyd. Mae'r asesiad cychwynnol o brif faterion wedi'i amlinellu yn **atodiad C** i'r llythyr hwn.

**Cyflwyniadau ysgrifenedig ynglŷn â sut y dylid archwilio'r cais**

Mae Deddf Cynllunio 2008 yn sefydlu proses ysgrifenedig yn bennaf ar gyfer archwilio ceisiadau am orchmynion cydsyniad datblygu a **rhoddir yr un pwys i sylwadau a wnaed yn ysgrifenedig â sylwadau llafar ar bob cam o'r broses**.

Rwyf bellaf yn gofyn am gyflwyniadau ysgrifenedig gan dderbynyddion y llythyr hwn ynglŷn â sut y dylid archwilio'r cais. Hoffwn glywed gennych yn arbennig os ydych naill ai:

1. yn ystyried bod angen gwneud newidiadau i'r amserlen archwilio ddrafft a amlinellir yn **atodiad D** i'r llythyr hwn
2. yn dymuno gwneud sylwadau ar y trefniadau ar gyfer gwrandawiadau'r archwiliad yn y dyfodol, gan gynnwys defnyddio dulliau rhithwir

Fe'ch gwahoddir i wneud cyflwyniad ysgrifenedig ynglŷn â sut y dylid archwilio'r cais erbyn **dyddiad cau gweithdrefnol A** (**30 Rhagfyr 2025**) (gweler **atodiad D** i'r llythyr hwn).

Gofynnaf i bob cyflwyniad gael ei wneud gan ddefnyddio'r dudalen 'Lleisio'ch barn' ar dudalen we'r prosiect ar neu cyn **dyddiad cau gweithdrefnol A**. Mae **atodiad H** i'r llythyr hwn yn rhoi rhagor o wybodaeth am ddefnyddio'r dudalen 'Lleisio'ch barn'.

**Ceisiadau i gymryd rhan yn y cyfarfod rhagarweiniol**

> Sylwer **nad oes rhaid i chi fynychu'r cyfarfod rhagarweiniol, na chyflwyno sylwadau ysgrifenedig iddo, er mwyn cymryd rhan yn yr archwiliad**. Os ydych yn barti â buddiant, gallwch wneud sylw ysgrifenedig a gwneud sylwadau ar y rhai a wnaed gan bartïon eraill â buddiant yn ystod yr archwiliad. Byddwch hefyd yn gallu cymryd rhan mewn unrhyw wrandawiadau a drefnir.

Os hoffech gymryd rhan yn y cyfarfod rhagarweiniol, mae'n ofynnol i chi roi gwybod i'r ExA yn ysgrifenedig ar neu cyn **30 Rhagfyr 2025** (gweler **dyddiad cau gweithdrefnol A**).

Mae'n **rhaid** i unrhyw gais i gymryd rhan yn y cyfarfod rhagarweiniol **gynnwys** y wybodaeth ganlynol:

- Enw a chyfeirnod unigryw (sydd ar frig eich llythyr neu neges e-bost gan yr Arolygiaeth Gynllunio)
- Cyfeiriad e-bost (os yw ar gael) a rhif ffôn cyswllt
- Enw a chyfeirnod unigryw unrhyw unigolyn/ sefydliad rydych yn ei gynrychioli (os yw'n berthnasol)
- Ar gyfer digwyddiadau cyfunol, cadarnhad ynghylch p'un a fyddwch yn cymryd rhan yn rhithwir neu wyneb yn wyneb
- Yr eitem agenda yr hoffech sôn amdani a rhestr o'r pwyntiau yr hoffech eu gwneud

Dylid gwneud ceisiadau i gymryd rhan gan ddefnyddio'r **ffurflen cymryd rhan mewn digwyddiad** ar neu cyn **dyddiad cau gweithdrefnol A**.

**Cysylltwch â'r Tîm Achos gan ddefnyddio'r manylion cyswllt ar frig y llythyr hwn os oes arnoch angen unrhyw gymorth i fynychu'r cyfarfod rhagarweiniol, naill ai'n rhithwir neu wyneb yn wyneb.**

**Fformat digwyddiadau archwilio – cyfarfod rhagarweiniol a gwrandawiadau**

Bydd y cais yn cael ei archwilio trwy broses ysgrifenedig yn bennaf a ategir gan wrandawiadau o fathau amrywiol, lle bo angen. Gweler nodyn cyngor yr Arolygiaeth Gynllunio Cyngor i aelodau'r cyhoedd: Camau'r broses NSIP a sut gallwch leisio'ch barn i gael rhagor o wybodaeth.

Mae digwyddiadau cyfunol (sy'n rhannol wyneb yn wyneb ac yn rhannol rithwir) a digwyddiadau cwbl rithwir yn ffurfio rhan o fodel gweithredu'r Arolygiaeth Gynllunio. Rwyf yn aros yn hyblyg a byddaf yn cadarnhau fformat unrhyw wrandawiadau sydd i'w cynnal yn ystod y cam archwilio pan fyddaf yn rhoi hysbysiad ffurfiol o bob gwrandawiad cyn iddo gael ei gynnal.

Rhoddaf hysbysiad ffurfiol y bydd **y cyfarfod rhagarweiniol yn ddigwyddiad cyfunol ac y bydd y Gwrandawiadau Mater Penodol (ISH) y cyfeirir atynt yn atodiad E i'r llythyr hwn yn ddigwyddiadau cyfunol hefyd.**

**Ar ôl y cyfarfod rhagarweiniol**

Ar ôl y cyfarfod rhagarweiniol, byddaf yn cyhoeddi llythyr (a adwaenir fel y Llythyr Rheol 8) sy'n amlinellu'r amserlen archwilio derfynol. Bydd nodyn o'r cyfarfod yn cael ei gyhoeddi ar dudalen we'r prosiect hefyd.

**Hysbysiad o wrandawiadau cychwynnol**

Rwyf wedi gwneud penderfyniad gweithdrefnol i gynnal y gwrandawiadau cychwynnol canlynol:

- **Gwrandawiad Mater Penodol 1 (ISH1)** am 14:00 o'r gloch ar 13 Ionawr 2026 (Digwyddiad cyfunol)
- **Gwrandawiad Mater Penodol 2 (ISH2)** am 10:00 o'r gloch ar 14 Ionawr 2026 (Digwyddiad cyfunol)

Mae **atodiad E** i'r llythyr hwn yn cynnwys gwybodaeth bwysig am y gwrandawiadau hyn, gan gynnwys pa fanylion y mae angen eu darparu gyda chais i gael eich clywed mewn gwrandawiad a'r weithdrefn a ddilynir.

**Penderfyniadau gweithdrefnol eraill a wnaed gan yr Awdurdod Archwilio**

Rwyf wedi gwneud penderfyniad gweithdrefnol a amlinellir yn fanwl yn **atodiad F** i'r llythyr hwn. Fe'i crynhoir fel a ganlyn:

- Gofyn am baratoi cais am randdirymiad ynglŷn â'r Rheoliadau Cynefinoedd, heb ragfarnu.

**Newidiadau i fuddiannau tir**

Pan fydd yr ymgeisydd yn dod yn ymwybodol bod perchenogaeth tir perthnasol wedi newid neu fod buddiant newydd ynddo, gofynnir iddo roi gwybod i'r unigolyn perthnasol y gall wneud cais i'r ExA i ddod yn barti â buddiant o dan adran 102A Deddf Cynllunio 2008. Dylai roi gwybod i'r unigolyn fod gwybodaeth am sut i wneud hyn ar gael yn nodyn cyngor yr Arolygiaeth Gynllunio ar gyfer y cyhoedd: Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol a'r bobl a'r sefydliadau sy'n ymwneud â'r broses. Mae'r amserlen archwilio'n cynnwys dyddiadau cau amrywiol ar gyfer cyflwyno llyfr cyfeirio wedi'i ddiweddaru a rhestr o newidiadau i'r llyfr cyfeirio, a ddylai gadarnhau bod unigolion perthnasol wedi cael gwybod am eu hawliau o dan adran 102A.

**Rheoli gohebiaeth yr archwiliad**

O ystyried faint o lythyrau y mae angen i'r Arolygiaeth Gynllunio eu hanfon at bartïon â buddiant yn ystod archwiliad, a pha mor aml y mae angen eu hanfon, ceisiwn gyfathrebu â phobl drwy e-bost gan fod cyfathrebu electronig yn fwy ecogyfeillgar a chost effeithiol i drethdalwyr.

Os ydych wedi cael llythyr ond rydych yn gallu derbyn gohebiaeth drwy e-bost, rhowch wybod i Dîm yr Achos gan ddefnyddio'r manylion cyswllt ar frig y llythyr hwn cyn gynted â phosibl.

Gan fod y broses archwilio'r gwneud defnydd helaeth o ddogfennau electronig, bydd yn ddefnyddiol i chi ymgyfarwyddo â thudalen we'r prosiect.

Mae tudalen 'Lleisio'ch barn' ar gael ar y wefan sy'n darparu porth y dylai partïon ei ddefnyddio i wneud cyflwyniadau ysgrifenedig erbyn dyddiadau cau perthnasol yn ystod yr archwiliad. Rhoddir rhagor o wybodaeth am y dudalen 'Lleisio'ch barn' yn **atodiad H** i'r llythyr hwn.

Gallwch hefyd ddefnyddio'r botwm 'Cael diweddariadau' ar dudalen we'r prosiect i gofrestru i gael diweddariadau e-bost awtomatig ar gamau allweddol yn ystod yr archwiliad.

**Y Gymraeg**

Rydym yn croesawu cyfraniadau yn Gymraeg yn ystod yr archwiliad. Bydd cyfleusterau cyfieithu ar gael yn y cyfarfod rhagarweiniol, ac mewn unrhyw wrandawiadau a gynhelir, i ganiatáu i'r rhai sy'n bresennol wneud cyfraniadau yn Gymraeg, os ydynt eisiau.

**Eich statws yn yr archwiliad**

Rydych wedi derbyn y llythyr hwn oherwydd eich bod yn unigolyn neu'n sefydliad sy'n ymwneud â'r broses Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol (NSIP). Gweler nodyn cyngor yr Arolygiaeth Gynllunio Cyngor i aelodau'r cyhoedd: Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol a'r bobl a'r sefydliadau sy'n ymwneud â'r broses i gael rhagor o fanylion.

Os ydych yn dal i fod yn ansicr ynglŷn â sut rydych yn ymwneud â'r broses ar ôl darllen y cyngor, cysylltwch â Thîm yr Achos gan ddefnyddio'r manylion ar frig y llythyr hwn.

**Dyfarnu costau**

Disgwylir i'r holl bartïon dalu eu costau eu hunain, fel arfer. Gellir dyfarnu costau yn erbyn parti sydd wedi gweithredu'n afresymol ac achosi i'r parti sy'n gwneud cais am ddyfarnu costau fynd i draul ddiangen neu wastraff yn ystod yr archwiliad. Dylech fod yn ymwybodol o'r arweiniad perthnasol ar gostau Dyfarnu costau: archwiliadau o geisiadau am orchmynion cydsyniad datblygu.

**Rheoli gwybodaeth**

Bydd gwybodaeth, gan gynnwys sylwadau, a gyflwynwyd ynglŷn â'r archwiliad hwn (os cânt eu derbyn gan yr ExA) a chofnod o unrhyw gyngor a roddwyd gan yr Arolygiaeth Gynllunio yn cael eu cyhoeddi ar dudalen we'r prosiect.

Sylwch y bydd angen cyhoeddi rhywfaint o wybodaeth bersonol er mwyn hwyluso archwiliad effeithiol a theg. I gael gwybod sut rydym yn trin eich gwybodaeth bersonol, darllenwch ein Hysbysiad Preifatrwydd.

Edrychaf ymlaen at weithio gyda'r holl bartïon wrth archwilio'r cais hwn.

Yn gywir

*Nick Ely*

**Yr Awdurdod Archwilio**

**Atodiadau**

**A** Agenda ar gyfer y cyfarfod rhagarweiniol
**B** Cyflwyniad i'r cyfarfod rhagarweiniol
**C** Asesiad cychwynnol o'r prif faterion
**D** Amserlen archwilio ddrafft
**E** Hysbysiad o wrandawiadau cychwynnol
**F** Penderfyniadau gweithdrefnol eraill a wnaed gan yr Awdurdod Archwilio
**G** Dogfennau'r archwiliad
**H** Gwybodaeth am y dudalen 'Lleisio'ch barn'

**Agenda ar gyfer y cyfarfod rhagarweiniol**

**Mae'n rhaid i chi gofrestru trwy lenwi'r ffurflen cymryd rhan mewn digwyddiad erbyn 30 Rhagfyr 2025 os ydych yn bwriadu cymryd rhan yn y cyfarfod rhagarweiniol a darparu'r holl wybodaeth y gofynnir amdani (gweler isod.**

Os ydych eisiau arsylwi'r cyfarfod rhagarweiniol yn unig, nid oes angen i chi gofrestru oherwydd byddwch yn gallu naill ai:

**1.** gwylio ffrwd fyw o'r digwyddiad – bydd dolen i'r ffrwd fyw ar gael ar dudalen we'r prosiect yn fuan cyn y trefnwyd i'r digwyddiad ddechrau

**2.** gwylio recordiad o'r digwyddiad a fydd yn cael ei gyhoeddi ar dudalen we'r prosiect yn fuan ar ôl i'r digwyddiad orffen.

Fel arall, gallwch ddod i'r digwyddiad yn y lleoliad i arsylwi'r trafodion; fodd bynnag, er mwyn sicrhau bod digon o seddau ar gael yn y lleoliad, gofynnwn i chi gofrestru'ch bwriad i fynychu er mwyn **arsylwi yn unig** erbyn **30 Rhagfyr 2025** gan ddefnyddio'r **ffurflen cymryd rhan mewn digwyddiad**. Sylwer efallai na fydd modd cymryd rhan ar y diwrnod os nad ydych wedi cofrestru'ch dymuniad i siarad erbyn **30 Rhagfyr 2025**.

Sylwch, drwy fynychu'r digwyddiad wyneb yn wyneb neu ar-lein, rydych yn cytuno i gael eich ffilmio ar gyfer y ffrwd fyw ar-lein o'r digwyddiad a'r recordiad o'r digwyddiad a fydd ar gael ar dudalen we'r prosiect. Bydd nifer gyfyngedig o seddau ar gael ar gyfer arsylwyr nad ydynt eisiau cael eu ffilmio yn y lleoliad. Cysylltwch â Thîm yr Achos i roi gwybod iddynt os byddai'n well gennych beidio â chael eich ffilmio yn y digwyddiad. Bydd trawsgrifiad o'r digwyddiad hefyd yn cael ei gyhoeddi ar dudalen we'r prosiect ar ein gwefan ar ôl y digwyddiad.

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | **13 Ionawr 2026** |
| **Y broses gofrestru:** | **09:30 o'r gloch** |
| Y broses gofrestru rithwir: | 09:45 o'r gloch |
| **Dyddiad dechrau'r cyfarfod:** | **10.00 o'r gloch** |
| **Lleoliad:** | **Digwyddiad cyfunol yn**<br>**Gwesty'r Village - Chester St David's, Parc Dewi Sant, Ewloe, Glannau Dyfrdwy CH5 3YB**<br>**ac yn rhithwir gan ddefnyddio Microsoft Teams** Bydd cyfarwyddiadau llawn ar sut i ymuno ar-lein neu dros y ffôn yn cael eu rhoi o flaen llaw i'r rhai sydd wedi rhag-gofrestru |
| **Mynychwyr:** | **Partïon a wahoddwyd sydd wedi rhag-gofrestru** |

| Agenda ar gyfer y cyfarfod rhagarweiniol | |
|---|---|
| **10.00 o'r gloch**<br>**Eitem 1** | **Y cyfarfod rhagarweiniol**<br>Bydd y cyfarfod rhagarweiniol yn agor yn ffurfiol am **10.00am**. Bydd yr Awdurdod Archwilio'n ymuno, yn croesawu'r cyfranogwyr ac yn arwain y cyflwyniadau. |
| **Eitem 2** | Sylwadau'r Awdurdod Archwilio ynglŷn â'r **broses archwilio** |
| **Eitem 3** | **Asesiad cychwynnol o'r prif faterion** (IAPI) – **atodiad C** i'r llythyr Rheol 6 |
| **Eitem 4** | **Amserlen archwilio ddrafft** – **atodiad D** i'r llythyr Rheol 6 |
| **Eitem 5** | **Hysbysiad ynghylch Gwrandawiadau Cychwynnol – atodiad E** i'r llythyr Rheol 6 |
| **Eitem 6** | **Penderfyniadau Gweithdrefnol – atodiad F** i'r llythyr Rheol 6 |
| **Eitem 7** | Unrhyw faterion eraill |
| **Diwedd y cyfarfod rhagarweiniol** | |

Os ydych yn cymryd rhan gan ddefnyddio Microsoft Teams, ymunwch â'r cyntedd rhithwir yn brydlon gan ddefnyddio'r cyfarwyddiadau a anfonir atoch. Bydd y digwyddiad yn dechrau am **10.00am** ni waeth os bydd rhywun yn hwyr. Mae'n bosibl na fydd hwyr-ddyfodiaid yn gallu cael mynediad.

Fe allai gymryd peth amser i dderbyn cyfranogwyr o'r cyntedd rhithwir, a gwerthfawrogir eich amynedd tra byddwch yn aros.

Fe allai'r agenda ar gyfer y cyfarfod rhagarweiniol newid yn ôl disgresiwn yr Awdurdod Archwilio, ond bydd yr Awdurdod Archwilio'n ystyriol o'r angen i ddarparu cyfleoedd ar gyfer cynnwys yr holl bartïon a wahoddwyd yn deg.

Mae'n **rhaid** i unrhyw gais i gymryd rhan yn y cyfarfod rhagarweiniol **gynnwys** y wybodaeth ganlynol a chael ei wneud ar y **ffurflen cymryd rhan mewn digwyddiad**:

- Enw a chyfeirnod unigryw (sydd ar frig eich llythyr neu neges e-bost gan yr Arolygiaeth Gynllunio)
- Cyfeiriad e-bost (os yw ar gael) a rhif ffôn cyswllt
- Enw a chyfeirnod unigryw unrhyw unigolyn/ sefydliad rydych yn ei gynrychioli (os yw'n berthnasol)
- Ar gyfer digwyddiadau cyfunol, cadarnhad ynghylch p'un a fyddwch yn cymryd rhan yn rhithwir neu wyneb yn wyneb

- Yr eitem agenda yr hoffech sôn amdani a rhestr o'r pwyntiau yr hoffech eu gwneud

## Cyflwyniad i'r cyfarfod rhagarweiniol

### Cefndir

Bydd y cyfarfod rhagarweiniol yn ddigwyddiad cyfunol. Bydd rhai cyfranogwyr yn mynychu wyneb yn wyneb a bydd rhai'n cymryd rhan yn rhithwir gan ddefnyddio Microsoft Teams.

Mae'r Awdurdod Archwilio (ExA) yn ymwybodol o flinder fideofynadledda a bydd yn ceisio cadw'r trafodion mor benodol ac effeithlon â phosibl. Mae'r atodiad hwn yn rhoi mynediad o flaen llaw at wybodaeth a fyddai'n cael ei chynnwys fel arfer yn sylwadau cyflwyniadol yr ExA. Darllenwch y wybodaeth hon yn ofalus. Bydd yr ExA yn rhoi crynodeb yn unig o'r pwyntiau allweddol a amlinellir yma er mwyn sicrhau bod cymaint o amser â phosibl ar gael i'r cyfranogwyr siarad.

### Yr Awdurdod Archwilio a Thîm yr Achos

Bydd yr ExA yn cyflwyno ei hun ar ddechrau'r cyfarfod rhagarweiniol.

Bydd yr ExA yn cael ei gefnogi gan Dîm Achos yr Arolygiaeth Gynllunio. Yn ystod y broses gofrestru, bydd aelod o Dîm yr Achos yn croesawu a derbyn cyfranogwyr o'r cyntedd rhithwir, a bydd ar gael i ateb cwestiynau trwy e-bost cyn ac ar ôl y cyfarfod rhagarweiniol. Y cyfeiriad e-bost cyswllt yw:
connahsquay@planninginspectorate.gov.uk

### Diben y cyfarfod rhagarweiniol

Mae'r cyfarfod rhagarweiniol yn cael ei gynnal i drafod y trefniadau ar gyfer yr archwiliad o'r cais am orchymyn cydsyniad datblygu (DCO) ar gyfer **Prosiect Pŵer Carbon Isel Cei Connah (EN010166)**, sy'n Brosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol (NSIP), ac y cyfeirir ato'n gyffredinol yn y cyfarfod rhagarweiniol a'r archwiliad fel 'y datblygiad arfaethedig'. Mae'r cais wedi cael ei wneud gan **Uniper UK**, y cyfeirir ato fel 'yr ymgeisydd'.

Bydd gwybodaeth am y cais a, maes o law, dogfennau a gynhyrchwyd ar gyfer yr archwiliad ar gael ar dudalen we'r prosiect ar y wefan Dod o Hyd i Brosiect Seilwaith Cenedlaethol. Bydd dolenni i amserlen yr archwiliad, sylwadau perthnasol, dogfennau'r archwiliad a gweithdrefn yr archwiliad yn cael eu storio yno hefyd.

Fe'ch anogir i edrych ar dudalen we'r prosiect os nad ydych eisoes wedi gwneud hynny, oherwydd fe'i defnyddir i gyfathrebu â chi a rhoi mynediad at ddogfennau drwy gydol yr archwiliad.

Prif ddiben y cyfarfod rhagarweiniol yw trafod y trefniadau ar gyfer archwilio'r cais. Mae'n canolbwyntio ar y broses yn unig, ac ni fydd yn edrych ar sylwedd y cynigion: Mae cwestiynau, trafodaethau a sylwadau ynglŷn â rhinweddau neu anfanteision y datblygiad arfaethedig ar gyfer yr archwiliad ei hun, a fydd yn dechrau'r diwrnod ar ôl i'r cyfarfod rhagarweiniol orffen.

Y cyfarfod rhagarweiniol fydd eich cyfle i ddylanwadu ar y broses y mae'r ExA yn bwriadu ei dilyn. Atodir yr agenda ar gyfer y cyfarfod rhagarweiniol i'r Llythyr Rheol 6 hwn yn **atodiad A**. Mae'n bwysig i chi gadw'r llythyr a'r agenda o'ch blaen a chyfeirio atynt yn ystod y cyfarfod rhagarweiniol. Fe allech ddymuno eu hargraffu cyn y cyfarfod rhagarweiniol i gyfeirio atynt.

**Arweiniad a pholisi'r llywodraeth**

Diffinnir y Datblygiad Arfaethedig fel Prosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol (NSIP) o dan Adran 14(1)(a) Deddf Cynllunio 2008 (PA2008), sy'n cynnwys 'adeiladu neu ymestyn gorsaf gynhyrchu' sy'n dod o dan Adran 15(1) a 15(3A) y Ddeddf oherwydd (a) ei fod yng Nghymru, (b) nid yw'n cynhyrchu trydan o wynt, ac (c) mae ganddo gapasiti o fwy na 350 megawat.

Mae'r Datganiadau Polisi Cenedlaethol (NPS) dynodedig canlynol yn berthnasol i'r archwiliad hwn ac i benderfyniadau a wneir ynglŷn â'r cais hwn.

- Yr NPS Trosfwaol ar gyfer Ynni (EN-1)
- Yr NPS ar gyfer Seilwaith Cynhyrchu Trydan Nwy Naturiol (EN-2)
- Yr NPS ar gyfer Seilwaith Cyflenwi Nwy Naturiol a Phiblinellau Nwy ac Olew (EN-4)
- Yr NPS ar gyfer Seilwaith Rhwydweithiau Trydan (EN-5)

Bydd yr ExA yn ystyried y datblygiad arfaethedig yn unol â'r Datganiadau Polisi Cenedlaethol hyn, y Datganiad Polisi Morol perthnasol ac unrhyw bolisi neu ystyriaethau eraill cymwys y mae'r ExA o'r farn eu bod yn bwysig ac yn berthnasol. Mae PA2008 yn egluro, wrth i'r Ysgrifennydd Gwladol (SoS) perthnasol wneud penderfyniad, bod "rhaid iddo benderfynu ar y cais yn unol ag unrhyw NPS perthnasol" (a104(3)), yn ddarostyngedig i amodau penodol. Yn ei hanfod, yr amodau yw bod rhaid i'r cais beidio â thorri rhwymedigaethau cyfreithiol neu gytuniad, ac na fyddai unrhyw effaith niweidiol o'r datblygiad arfaethedig yn drech na'i fuddion.

Mae gan yr SoS yr hawl i ddiystyru unrhyw sylwadau sy'n ymwneud â rhinweddau'r Datganiad Polisi Cenedlaethol (NPS) dynodedig. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu na fydd yr ExA yn treulio amser yn archwilio sylwadau sy'n herio'r polisi a amlinellir mewn NPSau, na dilysrwydd yr NPSau eu hunain. Canolbwyntir ar rinweddau neu anfanteision y datblygiad arfaethedig, a brofir i'r graddau priodol gan ddefnyddio'r profion a amlinellir mewn NPSau dynodedig perthnasol sydd mewn grym.

Mae polisïau cynllunio eraill pwysig a pherthnasol y gallai'r ExA eu hystyried yn cynnwys polisïau yng nghynlluniau datblygu'r awdurdodau lleol perthnasol. Fodd bynnag, os yw'r rhain yn gwrthdaro â'r polisi mewn NPS, yr NPS fydd drechaf.

I grynhoi, bydd y cyfarfod rhagarweiniol yn cadarnhau'r gweithdrefnau a'r amserlen ar gyfer archwilio'r Datblygiad Arfaethedig. Bydd yn gosod fframwaith ar gyfer yr ExA i alluogi'r SoS i ystyried y cais a phenderfynu arno. Wrth wneud hynny, bydd yr ExA yn ystyried:

- safbwyntiau a sylwadau'r holl bartïon â buddiant (IP)

- unrhyw adroddiadau ar yr effaith leol (LIR) a baratowyd ac a ddarparwyd gan awdurdodau lleol perthnasol
- materion eraill rhagnodedig
- unrhyw faterion eraill sy'n ymddangos yn berthnasol ac yn bwysig i benderfyniad yr SoS perthnasol

**Gwahoddedigion i'r cyfarfod rhagarweiniol**

Gwahoddir yr ymgeisydd i'r cyfarfod rhagarweiniol ac, yn gyffredinol, rhoddir cyfle iddo ymateb i unrhyw sylwadau a wneir.

Mae pawb sydd wedi gwneud sylw perthnasol dilys wedi cael ei gofrestru fel parti â buddiant ac wedi cael gwahoddiad i'r cyfarfod rhagarweiniol. Mae gan bob parti â buddiant yr hawl i gymryd rhan yn yr archwiliad.

Mae pob unigolyn neu sefydliad sydd â buddiant mewn tir neu hawliau y mae cais am gaffael gorfodol yn y cais hwn yn effeithio arno yn unigolyn yr effeithir arno (AP) ac wedi cael gwahoddiad i'r cyfarfod rhagarweiniol. Yn ogystal â hawl gyffredinol i gymryd rhan yn yr archwiliad, mae gan unigolion yr effeithir arnynt yr hawl i gael eu clywed mewn perthynas ag unrhyw wrthwynebiad ynglŷn ag effeithiau caffael gorfodol ar eu buddiannau mewn tir, a hawl i gael gwybod am unrhyw wrandawiad caffael gorfodol. Mae pob unigolyn yr effeithir arno'n barti â buddiant, p'un a yw wedi gwneud sylw perthnasol dilys ai peidio.

Mae cyrff penodol yn bartïon statudol ac fe'u gwahoddwyd i'r cyfarfod rhagarweiniol. Gall partïon statudol ddewis dod yn bartïon â buddiant hyd yn oed os nad ydynt wedi gwneud sylw perthnasol dilys trwy roi gwybod i'r ExA yn ysgrifenedig.

Gall yr ExA gynnwys pobl nad ydynt yn bartïon â buddiant yn yr archwiliad fel petaent yn bartïon â buddiant, gan gynnwys trwy eu gwahodd i'r cyfarfod rhagarweiniol. Fodd bynnag, gwneir hyn mewn amgylchiadau eithriadol yn unig, er enghraifft os oedd yn amlwg y byddai'r cais yn effeithio'n sylweddol ar unigolyn nad yw'n barti â buddiant yn awtomatig neu'n gymwys i ddewis dod yn barti â buddiant, ac na allai gymryd y camau angenrheidiol i gofrestru'n barti â buddiant.

**Cynnal y cyfarfod rhagarweiniol**

Mae'r ExA yn amcangyfrif y bydd yn cymryd hanner diwrnod i gwblhau'r cyfarfod rhagarweiniol.

Yn ystod y cyfarfod rhagarweiniol, mae'n bosibl y bydd angen i'r cyfranogwyr fod yn ystyriol ac yn amyneddgar os oes oedi'n gysylltiedig â'r dechnoleg a ddefnyddir. Gan gydnabod y blinder sy'n gysylltiedig â chyfathrebu ar y sgrin, bydd yr ExA yn darparu egwyliau yn ystod y cyfarfod rhagarweiniol, fel y bo'n briodol.

Bydd recordiad digidol o'r cyfarfod rhagarweiniol ar gael ar dudalen we'r prosiect cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl iddo orffen. Bydd y recordiad yn caniatáu i unrhyw aelod o'r cyhoedd sydd â diddordeb yn y cais a'r archwiliad gael gwybod beth a drafodwyd yn y cyfarfod rhagarweiniol. Trwy wneud a chyhoeddi'r recordiadau hyn,

mae'r ExA yn bodloni'r gofyniad cyfreithiol i gynnal y cyfarfod rhagarweiniol (ac unrhyw wrandawiadau eraill) yn gyhoeddus. Yn hyn o beth, **bydd angen i unrhyw un sy'n siarad yn y cyfarfod rhagarweiniol gyflwyno ei hun bob tro y bydd yn siarad**, er mwyn sicrhau bod rhywun sy'n gwrando ar y recordiad ar ôl y digwyddiad yn gwybod pwy oedd yn siarad. Bydd nodyn ysgrifenedig o'r cyfarfod rhagarweiniol yn cael ei gynhyrchu a'i gyhoeddi cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl iddo orffen.

Gan fod y recordiadau'n cael eu cadw a'u cyhoeddi, maen nhw'n gofnod cyhoeddus sy'n gallu cynnwys gwybodaeth bersonol y mae Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data y Deyrnas Unedig yn berthnasol iddi. Mae'n rhaid i'r cyfranogwyr wneud eu gorau i osgoi darparu unrhyw wybodaeth y dylid ei chadw'n breifat ac yn gyfrinachol fel arall. Os oes angen cyfeirio at wybodaeth o'r fath, fe ddylai fod ar ffurf ysgrifenedig. Er y bydd y wybodaeth hon yn cael ei chyhoeddi hefyd, gellir golygu neu ddileu cynnwys personol a phreifat cyn i'r wybodaeth fod ar gael i'r cyhoedd. Dylai unrhyw un sy'n ansicr ynglŷn â'r pwynt hwn ofyn i Dîm yr Achos am arweiniad cyn iddynt wneud gwybodaeth bersonol a phreifat yn gyhoeddus.

Mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn cyhoeddi'r recordiadau a'u cadw am gyfnod o 5 mlynedd o benderfyniad yr SoS ar y DCO. Os byddwch yn cymryd rhan yn weithredol yn y cyfarfod rhagarweiniol, mae'n bwysig eich bod yn deall y byddwch yn cael eich recordio ac y bydd y recordiad ar gael i'r cyhoedd. Gweler ein Hysbysiad Preifatrwydd i gael rhagor o wybodaeth am sut rydym yn trin eich data.

Yn dilyn cyflwyniadau'r ExA, gofynnir i bob cyfranogwr sydd wedi cofrestru i siarad gyflwyno ei hun, gan gynnwys unrhyw sefydliadau neu grwpiau y mae'n eu cynrychioli. Yna, bydd yr ExA yn cynnal y cyfarfod yn unol â'r agenda. Os nad ydych eisiau i ddelwedd ohonoch gael ei recordio, gallwch ddiffodd eich camera unrhyw bryd.

**Y broses archwilio**

Mae'r prosesau archwilio ar gyfer NSIPau yn wahanol i'r rhai ar gyfer ymchwiliad cyhoeddus i apêl gynllunio yn dilyn gwrthod caniatâd cynllunio, er enghraifft. Y prif wahaniaethau yw mai proses ysgrifenedig yn bennaf yw'r archwiliad o NSIP ac mae gwrandawiadau'n defnyddio dull holgar yn hytrach na dull gwrthwynebol.

Mae hyn yn golygu y bydd yr ExA yn archwilio, profi ac asesu'r dystiolaeth gan ddefnyddio cwestiynau ysgrifenedig yn bennaf. Er y bydd rhai gwrandawiadau'n cael eu cynnal i ddarparu tystiolaeth ategol, bydd cwestiynau i'r ymgeisydd neu dystion yn dod o'r ExA. Ni chaniateir i bartïon eraill holi na chroesholi tystion yn gyffredinol.

O ran cyfleoedd i ddarparu tystiolaeth yn ysgrifenedig, mae'r amserlen archwilio ddrafft yn darparu ar gyfer y prosesau ysgrifenedig canlynol:

- Gall awdurdodau lleol gyflwyno LIRau os ydynt yn dymuno. Er bod y rhain yn wirfoddol, os cânt eu darparu, mae PA2008 yn darparu bod rhaid iddynt gael eu hystyried gan yr SoS wrth wneud penderfyniad. O ganlyniad, mae LIRau yn ddull pwysig iawn i awdurdodau lleol gyfleu materion sy'n achos pryder i'r ExA, yr SoS a'u preswylwyr

- Gall partïon â buddiant wneud sylwdau ysgrifenedig (WR) a gwneud sylwadau ar WRau a wnaed gan bartïon eraill
- Gall partïon â buddiant ymateb i gwestiynau ysgrifenedig yr ExA (ExQau) a gwneud sylwadau ar ymatebion i'r cwestiynau ysgrifenedig hyn a ddarparwyd gan eraill
- Efallai y gofynnir i bartïon â buddiant gyfrannu at lunio datganiadau tir cyffredin (SoCGau) os yw'n ymddangos bod materion y maen nhw a'r ymgeisydd yn cytuno arnynt, ac os byddai'n ddefnyddiol egluro hyn. Mae SoCGau yn ymestyn yn fwyaf defnyddiol i faterion catalog na chytunwyd arnynt neu sy'n weddill

Mae'r amserlen archwilio ddrafft yn cynnwys cyfres o ddyddiadau cau wedi'u rhifo ar gyfer derbyn cyflwyniadau ysgrifenedig. Bydd cyflwyniadau sy'n cyrraedd erbyn y dyddiad cau perthnasol ac sy'n mynd i'r afael â'i ddiben yn cael eu derbyn. **Bydd dogfennau sy'n cyrraedd ar ôl y dyddiad cau perthnasol yn cael eu derbyn yn ôl disgresiwn yr ExA yn unig, ac mae'n bosibl na fyddant yn cael eu derbyn er mwyn sicrhau tegwch i'r holl bartïon.** Gall amgylchiadau lle mae dogfennau'n cael eu cyflwyno'n hwyr heb reswm da, gan achosi anghyfleustra neu oedi i bartïon eraill, fod yn gyfystyr ag ymddygiad afresymol.

Y prosesau ysgrifenedig hyn fydd prif ddull yr ExA o gasglu gwybodaeth, tystiolaeth a safbwyntiau ynglŷn â'r cais. Fodd bynnag, bydd yr archwiliad yn effeithiol dim ond os yw'r holl bartïon yn penderfynu rhoi atebion prydlon, llawn, gonest a chlir gyda thystiolaeth i bob cwestiwn sy'n berthnasol i'w buddiannau ac i ymwneud yn llawn ag unrhyw brosesau eraill cysylltiedig, fel cwblhau WRau a SoCGau.

Nid oes pwrpas cadw gwybodaeth yn ôl neu ei hoedi, na gwrthod cydweithredu. Os bydd hynny'n digwydd, fe allai unrhyw ymddygiad afresymol a achosodd i barti arall fynd i draul wastraff arwain at ddyfarnu costau yn erbyn y parti sy'n tramgwyddo.

Mae gan yr ExA ddisgresiwn i ddiwygio'r amserlen archwilio er budd ehangach yr archwiliad. Os oes modd, bydd digwyddiadau'n cael eu trefnu ar gyfer adegau pan fydd yr holl bartïon perthnasol ar gael, ond mae'n ddyletswydd ar yr ExA i gwblhau'r archwiliad erbyn diwedd y cyfnod o chwe mis sy'n dechrau'r diwrnod ar ôl i'r cyfarfod rhagarweiniol orffen. Mae'r gofyniad hwn wedi'i osod gan ddeddfwriaeth, ac er y bydd yr ExA yn ceisio aildrefnu dyddiadau digwyddiadau i fodloni'r holl bartïon perthnasol, yn ymarferol ni fydd llawer o gyfle i newid dyddiadau a amlinellir yn yr amserlen archwilio ddrafft.

O ganlyniad i'r terfyn amser statudol ar gyfer yr archwiliad, pan fydd materion y mae angen eu trafod a'u cytuno rhwng yr ymgeisydd a phartïon â buddiant o hyd, bydd yn ddefnyddiol iawn i'r ExA pe gallai'r rheiny ddechrau cyn gynted â phosibl.

**Gwrandawiadau**

Mae'r amserlen archwilio ddrafft yn cynnwys darpariaeth ar gyfer gwrandawiadau, lle y bydd yr ExA yn clywed tystiolaeth lafar gan y partïon amrywiol.

Caiff unrhyw barti â buddiant sydd wedi cofrestru ofyn am **wrandawiad llawr agored** (OFH) i wneud sylwadau llafar ynglŷn â'r cais os yw'n credu bod hynny'n well na dibynnu ar ei sylwadau ysgrifenedig, er y rhoddir yr un pwys i'r ddau. Dylai cyflwyniadau llafar gael eu seilio ar sylwadau a wnaed yn ysgrifenedig yn flaenorol, ond ni ddylent ailadrodd materion yr ymdriniwyd â nhw yn y cyflwyniad ysgrifenedig yn unig. Yn hytrach, dylent ganolbwyntio ar fanylion penodol ac esboniad i helpu i lywio'r ExA. Ni ddylai sylwadau llafar gynnwys deunydd newydd neu annisgwyl. Gofynnir i bob siaradwr ddarparu crynodeb ysgrifenedig sy'n cynnwys unrhyw dystiolaeth ategol neu gyfeiriadau ar ôl y gwrandawiad.

Yn yr un modd â phob digwyddiad archwilio, mae gwrandawiadau llawr agored yn ddarostyngedig i bwerau rheoli'r ExA, fel yr amlinellir yn PA2008 a deddfwriaeth ategol. Mae'n rhaid i gyfranogwyr gofrestru o flaen llaw erbyn y dyddiad cau a ddangosir yn yr amserlen archwilio ac yn unol â'r cyfarwyddiadau. Mae'n arferol i'r ExA osod terfyn amser ar gyfer pob siaradwr, a gofynnir i siaradwyr sydd â phwyntiau cyffredin ddod at ei gilydd i enwebu llefarydd neu siaradwyr cynrychioliadol i ymdrin â phynciau penodol, er mwyn osgoi ailadrodd. Fel arfer, rhoddir mwy o amser i siaradwyr sy'n cynrychioli awdurdodau cyhoeddus, sefydliadau cymunedol ac aelodaeth neu nifer o bartïon â buddiant, gan gydnabod eu rôl gynrychioliadol.

Mae DCO drafft yr ymgeisydd yn darparu ar gyfer caffael tir a hawliau yn orfodol, a meddiannu tir dros dro. Mae gan unigolion yr effeithir arnynt (sy'n golygu'r rhai hynny yr effeithir ar eu tir neu eu hawliau dros dir) yr hawl i ofyn am **wrandawiad caffael gorfodol** (CAH) a chael eu clywed ynddo. Os bydd un neu fwy o unigolion yr effeithir arnynt yn gofyn am gael eu clywed, bydd rhaid cynnal gwrandawiad caffael gorfodol. Mae dyddiadau dros dro ar gyfer gwrandawiadau caffael gorfodol wedi'u cynnwys yn yr amserlen archwilio ddrafft ynghyd â dyddiadau cau erbyn pryd y mae'n rhaid i unigolion yr effeithir arnynt gyflwyno ceisiadau i gael eu clywed.

Mae gan yr ExA ddisgresiwn i gynnal **gwrandawiadau mater penodol** (ISH) os byddent o gymorth i'r archwiliad ac os oes rheswm penodol pam y byddai hynny'n fwy defnyddiol na dibynnu ar dystiolaeth ysgrifenedig yn unig. Os nad oes gwrandawiad mater penodol ar un neu fwy o bynciau, nid yw hynny'n awgrymu bod y pwnc hwnnw'n llai pwysig na rhai eraill sy'n destun gwrandawiad. Yn hytrach, mae'n dangos bod yr ExA yn fodlon y gellir ystyried y materion yn llawn trwy gyflwyniadau ysgrifenedig ac ymatebion i'w gwestiynau ysgrifenedig a bod pob parti wedi cael cyfle teg i gyflwyno ei achos.

Mae'r amserlen archwilio ddrafft yn cynnwys nifer o ddyddiadau a neilltuwyd ar gyfer gwrandawiadau mater penodol, a chaiff partïon â buddiant awgrymu pynciau i'w trafod mewn gwrandawiad mater penodol yn eu sylwadau ysgrifenedig neu lafar i'r cyfarfod rhagarweiniol.

Mae'n bosibl y bydd angen i'r ExA gynnal mwy nag un gwrandawiad mater penodol ynglŷn â'r DCO drafft. Mae hyn yn arferol, ac fe'u cynhelir heb ragfarnu. Gall partïon awgrymu addasiadau a diwygiadau i'r DCO drafft a ddarparwyd gan yr ymgeisydd gyda'r cais, heb ragfarnu eu safbwynt cyffredinol ar y cais.

Nid yw cynnal gwrandawiadau o’r fath yn awgrymu bod yr ExA wedi ffurfio barn ynglŷn â rhinweddau’r cais. Beth bynnag fo’r argymhelliad yn y pen draw, mae’n rhaid i’r ExA sicrhau bod y DCO drafft yn addas i’r diben os bydd yr SoS yn penderfynu rhoi cydsyniad, gan y bydd unrhyw gydsyniad yn ddarostyngedig i’r gofynion (sy’n debyg i amodau cynllunio) a amlinellir yn y DCO drafft.

Mewn gwrandawiadau, ni fydd angen i bartïon wneud cyflwyniadau hir a manwl sy’n gofyn am gyflwyniadau PowerPoint, er enghraifft. Gellir darparu unrhyw fanylion/ gwybodaeth ategol yn ysgrifenedig ar ôl y digwyddiad erbyn y dyddiad cau perthnasol.

Mae’r amserlen archwilio ddrafft yn cynnwys dyddiad cau (**27 Ionawr 2026**) er mwyn i gyfranogwyr roi gwybod i’r ExA eu bod yn dymuno siarad mewn gwrandawiad llawr agored neu wrandawiad caffael gorfodol, os gofynnir amdanynt.

**Archwiliadau safle**

Yn rhan o’r broses archwilio, fe allai’r ExA gynnal archwiliadau safle. Gall y rhain fod yn ddigwmni neu gyda chwmni.

Cynhelir y rhain er mwyn i’r ExA weld nodweddion y cynigion o fewn cyd-destun y dystiolaeth a gyflwynwyd. Bydd nodiadau archwiliadau safle digwmni (USI) yn cael eu cyhoeddi ar dudalen we’r prosiect.

Bydd archwiliadau safle gyda chwmni (ASI) yn angenrheidiol dim ond i weld tir nad oes mynediad cyhoeddus iddo, neu na ellir ei weld yn glir o leoliadau cyfagos sydd ar gael i’r cyhoedd. Diben ASI yw ymgyfarwyddo yn unig ac ni fydd rhinweddau’r datblygiad arfaethedig yn cael eu trafod.

Fe allai’r ExA benderfynu cynnal ASIau mewn lleoliadau perthnasol a enwebwyd, a ategir gan gyflwyno deunydd ysgrifenedig, ffotograffig, fideo neu hyd yn oed drôn ychwanegol, os byddai hynny’n well nag ymweld â safleoedd neu gynnal ASIau mewn amgylchiadau lle byddai’n rhy anodd ac yn cymryd gormod o amser i’w cynnal (er enghraifft, os oes cyfyngiadau iechyd y cyhoedd ar waith). Fe allai’r ExA hefyd ystyried y byddai’n briodol gwneud trefniadau ar gyfer rhoi mynediad yn unig i safleoedd penodol fel y gellid eu harchwilio yn rhan o archwiliad safle digwmni ar sail angen mynediad (ARSI).

Mae’r amserlen archwilio ddrafft yn cynnwys dyddiad cau i bartïon â buddiant awgrymu safleoedd a lleoliadau y dylai’r ExA ymweld â nhw. Defnyddir y rhain i lywio USIau/ARSIau pellach, yn ogystal ag ASIau posibl.

## Asesiad cychwynnol o'r prif faterion

Dyma'r asesiad cychwynnol o'r pri faterion, fel sy'n ofynnol o dan adran 88(1) Deddf Cynllunio 2008 (PA2008). Fe'i paratowyd gan yr Awdurdod Archwilio (ExA) ar ôl iddo:

- ddarllen dogfennau'r cais
- darllen y sylwadau perthnasol a dderbyniwyd ynglŷn â'r cais
- ystyried unrhyw faterion eraill pwysig a pherthnasol

Mae'r asesiad cychwynnol wedi helpu'r ExA i ffurfio barn dros dro ynglŷn â sut y dylid archwilio'r cais. Nid yw'n rhestr gynhwysfawr na neilltuedig o'r materion a fydd yn cael eu harchwilio, ac mae'n anochel y bydd rhai materion yn gorgyffwrdd neu'n cydberthyn. Bydd yr ExA yn ystyried yr holl faterion pwysig a pherthnasol yn ystod yr archwiliad a phan fydd yn ysgrifennu ei argymhelliad i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiogeledd Ynni a Sero Net ar ôl i'r archwiliad ddod i ben.

Mae'r polisi a'r gofynion a'r dogfennau cydsynio sy'n gysylltiedig â PA2008 yn rhan annatod o'r archwiliad ac felly nid ydynt wedi'u rhestru'n brif faterion. Dylid hefyd nodi er nad yw effeithiau'r cynnig mewn perthynas â hawliau dynol a dyletswyddau cydraddoldeb wedi'u rhestru'n brif faterion, y bydd yr ExA yn cadw'r rhain mewn cof wrth gynnal pob agwedd ar yr archwiliad.

Er nad yw materion sy'n ymwneud â chaffael gorfodol a'r Gorchymyn Cydsyniad Datblygu drafft wedi'u rhestru'n brif faterion, byddant yn rhan annatod o'r archwiliad.

Rhoddir ystyriaeth i'r holl faterion perthnasol yn ystod y gweithgareddau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu sy'n gysylltiedig â'r datblygiad arfaethedig, ac yn gronnol gyda chynlluniau a phrosiectau eraill, fel y bo angen.

Nid yw trefn y materion a restrir yn awgrymu trefn blaenoriaeth na phwysigrwydd. Mae'r eitemau mewn pwyntiau bwled o dan bob mater yn ddangosol ac nid ydynt yn atal ystyried is-eitemau eraill.

| | |
|---|---|
| **1. Ansawdd Aer** | Asesu'r effeithiau ar ansawdd aer, yr allyriadau a'r effeithiau tebygol a mesurau lliniaru arfaethedig mewn perthynas â phreswylwyr lleol a'r amgylchedd. |
| **2. Traffig a Thrafnidiaeth** | Asesu'r effeithiau ar draffig a thrafnidiaeth, gan gynnwys unrhyw effeithiau ar y gymuned leol, yn enwedig yn ystod adeiladu, ac effeithiau ehangach ar y rhwydwaith strategol ac afonydd mordwyadwy. |
| **3. Ecoleg Ddaearol a Dyfrol** | Asesu'r effeithiau ar ecoleg ddaearol a dyfrol a mesurau lliniaru arfaethedig, yn enwedig mewn perthynas â fflora a ffawna sy'n gysylltiedig â safleoedd dynodedig. |
| **4. Ecoleg Forol** | Asesu'r effeithiau ar ecoleg forol a mesurau lliniaru arfaethedig. |

| | |
|---|---|
| **5. Yr Amgylchedd Dŵr a Pherygl Llifogydd** | Asesu'r effeithiau tynnu a gollwng ar ansawdd dŵr ac unrhyw fesurau lliniaru arfaethedig.<br>Asesu'r perygl llifogydd ac arfordirol o bob ffynhonnell ar y datblygiad arfaethedig a'i fesurau lliniaru. |
| **6. Tirwedd ac Amwynder Gweledol** | Asesu effeithiau'r datblygiad arfaethedig a'i fesurau lliniaru ar y dirwedd ac amwynder gweledol. |
| **7. Newid yn yr Hinsawdd** | Asesu'r datblygiad arfaethedig mewn perthynas â chyfrannu at y newid yn yr hinsawdd a lliniaru ar gyfer effeithiau'r newid yn yr hinsawdd. |
| **8. Damweiniau Mawr a Thrychinebau** | Asesu risg damwain fawr yn y datblygiad arfaethedig, y canlyniadau a mesurau lliniaru. |
| **9. Effeithiau Cronnol a Chyfunol** | Asesu effeithiau cronnol a chyfunol y datblygiad arfaethedig ar y cyd â datblygiadau parhaus ac arfaethedig cyfagos yn yr ardal. |

**Amserlen archwilio ddrafft**

Mae'n ddyletswydd ar yr Awdurdod Archwilio (ExA) i **gwblhau'r** archwiliad o'r cais erbyn diwedd y cyfnod o 6 mis sy'n dechrau'r diwrnod ar ôl i'r cyfarfod rhagarweiniol orffen. **Fodd bynnag, fe allai'r ExA benderfynu cau'r archwiliad yn gynharach ac ar y dyddiad a bennir yn yr amserlen os yw'n credu bod y cais a'r materion perthnasol wedi cael eu harchwilio'n ddigonol.**

Bydd y cais yn cael ei archwilio'n bennaf trwy ystyried cyflwyniadau ysgrifenedig. Bydd yr ExA hefyd yn ystyried unrhyw sylwadau llafar a wnaed mewn gwrandawiadau.

| Eitem | Materion | Dyddiad |
|---|---|---|
| 1. | **Dyddiad cau gweithdrefnol A**<br>Dyddiad cau i'r ExA dderbyn:<br>• cyflwyniadau ysgrifenedig ar y weithdrefn archwilio, gan gynnwys unrhyw gyflwyniadau ynglŷn â defnyddio dulliau rhithwir<br>• ceisiadau i siarad yn y cyfarfod rhagarweiniol<br>• ceisiadau i siarad yng ngwrandawiad mater penodol 1 (ISH1) ynglŷn â'r Gorchymyn Cydsyniad Datblygu drafft ac egwyddorion cyffredinol y datblygiad arfaethedig<br>• ceisiadau i siarad yng ngwrandawiad mater penodol 2 (ISH2) ynglŷn ag Ecoleg, Traffig a Thrafnidiaeth<br>• lleoliadau awgrymedig ar gyfer archwiliadau safle (gyda chwmni neu ddigwmni), gan gynnwys cyfiawnhad, i'w hystyried gan yr ExA | **Dydd Mawrth 30 Rhagfyr 2025** |
| 2. | **Cyfarfod rhagarweiniol** | **Dydd Mawrth 13 Ionawr 2026**<br>**10:00 o'r gloch** |
| 3. | **Gwrandawiad Mater Penodol 1 (ISH1)** ynglŷn â'r Gorchymyn Cydsyniad Datblygu drafft ac egwyddorion cyffredinol y datblygiad arfaethedig | **Dydd Mawrth 13 Ionawr 2026**<br>**14:00 o'r gloch** |
| 4. | **Gwrandawiad Mater Penodol 2 (ISH2)** ynglŷn ag Ecoleg, Traffig a Thrafnidiaeth | **Dydd Mercher 14 Ionawr 2026**<br>**10:00 o'r gloch** |

| | | |
|---|---|---|
| **5.** | **Cyhoeddi'r canlynol gan yr ExA:**<br>• yr amserlen archwilio | **Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl y Cyfarfod Rhagarweiniol** |
| **6.** | **Dyddiad Cau 1**<br>Dyddiad cau i'r ExA dderbyn:<br>• sylwadau ar sylwadau perthnasol (RR)<br>• crynodeb o bob RR sy'n fwy na 1500 o eiriau<br>• datganiadau ysgrifenedig gan bartïon â diddordeb a chrynodebau o unrhyw rai sy'n fwy na 1500 o eiriau.<br>• cyflwyniadau ôl-wrandawiad, sy'n cynnwys crynodebau ysgrifenedig o gyflwyniadau llafar ac ymatebion i gyflwyniadau llafar y gofynnwyd amdanynt gan yr ExA<br>• Datganiadau Tir Cyffredin (SoCG) cychwynnol gyda'r partïon a restrir yn **atodiad F**<br>• Datganiad Cyffredinrwydd cychwynnol ar gyfer pob SoCG<br>• dogfennau'r ymgeisydd wedi'u diweddaru – fersiynau glân a fersiynau sy'n dangos newidiadau wedi'u tracio ers y fersiwn ddiwethaf a gyflwynwyd:<br>    o Canllaw i'r Cais<br>    o Mynegai Cais Electronig<br>    o Gorchymyn Cydsyniad Datblygu drafft<br>    o Memorandwm Esboniadol<br>    o Datganiad o'r Sefyllfa mewn perthynas â Chydsyniadau a Chytundebau<br>    o Llyfr Cyfeirio<br>    o Traciwr Trafodaethau Tir a Hawliau<br>    o Datganiad o'r Rhesymau<br>    o Rhestr Trafodaethau a Phwerau a Geisir<br>• amserlen ddrafft yr ymgeisydd ar gyfer arolygiad safle gyda chwmni (ASI) (os oes angen)<br>• (os gofynnwyd amdano)<br>• ceisiadau i siarad mewn gwrandawiadau yr hysbyswyd amdanynt a restrir yn **atodiad E** | **Dydd Mawrth 27 Ionawr 2026** |

| | | |
|---|---|---|
| | • ceisiadau i siarad mewn gwrandawiad llawr agored (OFH)<br>• ceisiadau i siarad mewn Gwrandawiad Caffael Gorfodol (CAH)<br>• unrhyw wybodaeth ychwanegol y gofynnwyd amdani gan yr ExA o dan reol 17 Rheolau Cynllunio Seilwaith (Gweithdrefn Archwilio) 2010<br>• sylwadau ar unrhyw wybodaeth/ cyflwyniadau ychwanegol a dderbyniwyd gan yr ExA | |
| **7.** | **Dyddiad Cau 2**<br>Dyddiad cau i'r ExA dderbyn:<br>• sylwadau ar unrhyw gyflwyniadau a dderbyniwyd erbyn Dyddiad Cau 1.<br>• Adroddiadau ar yr Effaith Leol (LIR) gan awdurdodau cynllunio lleol perthnasol<br>• sylwadau ar amserlen ddrafft yr ymgeisydd ar gyfer yr ASI (os oes angen)<br>• unrhyw wybodaeth ychwanegol y gofynnwyd amdani gan yr ExA o dan reol 17 Rheolau Cynllunio Seilwaith (Gweithdrefn Archwilio) 2010 | **Dydd Mawrth 10 Chwefror 2026** |
| **8.** | **Cyhoeddi'r canlynol gan yr ExA:**<br>• amserlen derfynol yr ExA ar gyfer yr ASI (os oes angen)<br>• cwestiynau ysgrifenedig cyntaf yr ExA (ExQ1) | **Dydd Mawrth 17 Chwefror 2026** |
| **9.** | **Dyddiad Cau 3**<br>Dyddiad cau i'r ExA dderbyn:<br>• sylwadau ar unrhyw gyflwyniadau a dderbyniwyd erbyn Dyddiad Cau 2<br>• ymatebion i Gwestiynau Ysgrifenedig Cyntaf yr ExA (ExQ1)<br>• SoCGau wedi'u diweddaru gyda'r partïon a restrir yn atodiad F – fersiwn lân a fersiwn tracio newidiadau<br>• Datganiad Cyffredinrwydd wedi'i ddiweddaru ar gyfer pob SoCG – fersiwn lân a fersiwn tracio newidiadau | **Dydd Mawrth 10 Mawrth 2026** |

| | | |
|---|---|---|
| | • dogfennau'r ymgeisydd wedi'u diweddaru – fersiwn lân a fersiwn sy'n dangos newidiadau wedi'u tracio ers y fersiwn ddiwethaf a gyflwynwyd:<br>  ○ Canllaw i'r Cais<br>  ○ Mynegai Cais Electronig<br>  ○ Gorchymyn Cydsyniad Datblygu drafft<br>  ○ Memorandwm Esboniadol<br>  ○ Datganiad o'r Sefyllfa mewn perthynas â Chydsyniadau a Chytundebau<br>  ○ Llyfr Cyfeirio<br>  ○ Traciwr Trafodaethau Tir a Hawliau<br>  ○ Datganiad o'r Rhesymau<br>  ○ Rhestr Trafodaethau a Phwerau a Geisir<br>• sylwadau ar LIRau<br>• unrhyw wybodaeth ychwanegol y gofynnwyd amdani gan yr ExA o dan Reol 17 Rheolau Cynllunio Seilwaith (Gweithdrefn Archwilio) 2010 | |
| **10.** | **Amser wedi'i neilltuo ar gyfer gwrandawiadau ac ASI:**<br>• gwrandawiadau mater penodol (ISH) (os oes angen)<br>• gwrandawiad caffael gorfodol 1 (CAH1) (os oes angen)<br>• gwrandawiad llawr agored (OFH1) (os oes angen)<br>• archwiliad safle gyda chwmni (ASI) (os oes angen) | **Yr wythnos sy'n cychwyn 16 Mawrth 2026** |
| **11.** | **Dyddiad Cau 4**<br>• sylwadau ar unrhyw gyflwyniadau a dderbyniwyd erbyn Dyddiad Cau 3.<br>• cyflwyniadau ôl-wrandawiad, gan gynnwys crynodebau ysgrifenedig o gyflwyniadau llafar ac unrhyw ddogfennau y gofynnwyd amdanynt gan yr ExA<br>• SoCGau wedi'u diweddaru gyda'r partïon a restrir yn atodiad F – fersiwn lân a fersiwn tracio newidiadau<br>• Datganiad Cyffredinrwydd wedi'i ddiweddaru ar gyfer pob SoCG – fersiwn lân a fersiwn tracio newidiadau | **Dydd Mawrth 31 Mawrth 2026** |

<table>
<tr><td></td><td>

- **Dogfennau'r Ymgeisydd wedi'u diweddaru** – fersiwn lân a fersiwn sy'n dangos newidiadau wedi'u tracio ers y fersiwn ddiwethaf a gyflwynwyd:
  - Canllaw i'r Cais
  - Mynegai Cais Electronig
  - Gorchymyn Cydsyniad Datblygu drafft
  - Memorandwm Esboniadol
  - Datganiad o'r Sefyllfa mewn perthynas â Chydsyniadau a Chytundebau
  - Llyfr Cyfeirio
  - Traciwr Trafodaethau Tir a Hawliau
  - Datganiad o'r Rhesymau
  - Rhestr Trafodaethau a Phwerau a Geisir
- unrhyw wybodaeth ychwanegol y gofynnwyd amdani gan yr ExA o dan Reol 17 Rheolau Cynllunio Seilwaith (Gweithdrefn Archwilio) 2010

</td><td></td></tr>
<tr><td>12.</td><td>

**Dyddiad Cau 5**

- sylwadau ar unrhyw gyflwyniadau a dderbyniwyd erbyn Dyddiad Cau 4
- SoCGau wedi'u diweddaru gyda'r partïon a restrir yn atodiad F – fersiwn lân a fersiwn tracio newidiadau
- Datganiad Cyffredinrwydd wedi'i ddiweddaru ar gyfer pob SoCG – fersiwn lân a fersiwn tracio newidiadau
- dogfennau'r ymgeisydd wedi'u diweddaru – fersiwn lân a fersiwn sy'n dangos newidiadau wedi'u tracio ers y fersiwn ddiwethaf a gyflwynwyd:
  - Canllaw i'r Cais
  - Mynegai Cais Electronig
  - Gorchymyn Cydsyniad Datblygu drafft
  - Memorandwm Esboniadol
  - Datganiad o'r Sefyllfa mewn perthynas â Chydsyniadau a Chytundebau
  - Llyfr Cyfeirio
  - Traciwr Trafodaethau Tir a Hawliau
  - Datganiad o'r Rhesymau
  - Rhestr Trafodaethau a Phwerau a Geisir

</td><td>

**Dydd Mawrth 14 Ebrill 2026**

</td></tr>
</table>

| | | |
|---|---|---|
| | • unrhyw wybodaeth ychwanegol y gofynnwyd amdani gan yr ExA o dan Reol 17 Rheolau Cynllunio Seilwaith (Gweithdrefn Archwilio) 2010 | |
| **13.** | **Amser a neilltuwyd ar gyfer gwrandawiadau (os oes angen)**<br>• gwrandawiadau mater penodol (ISH) (os oes angen)<br>• gwrandawiad caffael gorfodol 2 (CAH2) (os oes angen) | **Yr wythnos sy'n cychwyn 27 Ebrill 2026** |
| **14.** | **Cyhoeddi'r canlynol gan yr ExA:**<br>• cwestiynau ysgrifenedig ail yr ExA (ExQ2) (os oes angen)<br>• Sylwadau'r ExA ar y dDCO, neu'r rhestr o newidiadau iddo (os oes angen)<br>• Adroddiad ar y Goblygiadau i Safleoedd Ewropeaidd (RIES) ac unrhyw gwestiynau cysylltiedig (os oes angen) | **Tuesday 5 May 2026** |
| **15.** | **Dyddiad Cau 6**<br>• sylwadau ar unrhyw gyflwyniadau a dderbyniwyd erbyn Dyddiad Cau 5<br>• cyflwyniadau ôl-wrandawiad (os oes angen), gan gynnwys crynodebau ysgrifenedig o gyflwyniadau llafar ac unrhyw ddogfennau y gofynnwyd amdanynt gan yr ExA<br>• ymatebion i cwestiynau ysgrifenedig ail yr ExA (ExQ2)<br>• sylwadau'r ExA ar y dDCO, neu'r rhestr o newidiadau iddo (os oes angen)<br>• canllaw terfynol i'r cais (fersiwn lân a fersiwn tracio newidiadau)<br>• Y DCO terfynol sydd i'w gyflwyno gan yr Ymgeisydd yn y templed Offeryn Statudol (OS).<br>(Dylai'r Ymgeisydd ddarparu'r hysbysiad e-bost gan https://publishing.legislation.gov.uk/validation sy'n cadarnhau bod y ddogfen wedi mynd trwy'r broses ddilysu'n llwyddiannus, a'r fersiwn PDF o'r adroddiad dilysu OS a gafwyd o'r ddolen yn yr hysbysiad e-bost. Dylai'r Ymgeisydd hefyd ddarparu fersiwn MS Word lân (gyda'r holl newidiadau a draciwyd wedi'u | **Dydd Mawrth 26 Mai 2026** |

| | | |
|---|---|---|
| | dileu) ar wahân o'r dDCO, heb bennyn na thudalen glawr.)<br>• memorandwm Esboniadol terfynol wedi'i ddiweddaru (fersiwn lân a fersiwn tracio newidiadau)<br>• datganiad o'r Sefyllfa mewn perthynas â Chydsyniadau a Chytundebau terfynol (fersiwn lân a fersiwn tracio newidiadau)<br>• llyfr Cyfeirio terfynol wedi'i ddiweddaru (fersiwn lân a fersiwn tracio newidiadau) a rhestr newidiadau i'r Llyfr Cyfeirio<br>• traciwr Trafodaethau Tir a Hawliau terfynol (fersiwn lân a fersiwn tracio newidiadau)<br>• datganiad o'r Rhesymau terfynol wedi'i ddiweddaru (fersiwn lân a fersiwn tracio newidiadau)<br>• datganiadau Tir Cyffredin terfynol (fersiwn lân a fersiwn tracio newidiadau)<br>• datganiad Cyffredinrwydd SoCGau terfynol (fersiwn lân a fersiwn tracio newidiadau)<br>• rhestr o faterion na chytunwyd arnynt lle na ellid cwblhau SoCG yn derfynol<br>• rhestr Trafodaethau a Phwerau a Geisir terfynol (fersiwn lân a fersiwn tracio newidiadau)<br>• cytundeb Adran 106 terfynol wedi'i lofnodi a'i ddyddio (os oes angen, fersiwn lân a fersiwn tracio newidiadau)<br>• sylwadau ar y RIES<br>• unrhyw wybodaeth ychwanegol y gofynnwyd amdani gan yr ExA o dan Reol 17 Rheolau Cynllunio Seilwaith (Gweithdrefn Archwilio) 2010 | |
| **16.** | **Diwedd yr archwiliad**<br>Mae'r ExA yn bwriadu cau'r archwiliad ar y dyddiad hwn. Gweler 'Nodyn ynglŷn â dyddiad cau'r archwiliad'. | **Dydd Mawrth 9 Mehefin 2026** |

**Nodyn ynglŷn â dyddiad cau'r archwiliad**

Mae'n ddyletswydd ar yr ExA i gwblhau'r archwiliad o'r cais erbyn diwedd y cyfnod o 6 mis sy'n dechrau'r diwrnod ar ôl i'r cyfarfod rhagarweiniol orffen. **Fodd bynnag, fe allai'r ExA benderfynu cau'r archwiliad yn gynharach ac ar y dyddiad a bennir**

**yn yr amserlen os yw'n credu bod y cais a'r materion perthnasol wedi cael eu harchwilio'n ddigonol.**

### Amserau cyflwyno ar gyfer dyddiadau cau

Yr amser ar gyfer cyflwyno dogfennau erbyn unrhyw ddyddiad cau yn yr amserlen yw 23:59 ar y dyddiad cau perthnasol, oni chyfarwyddir fel arall gan yr ExA.

### Dyddiadau cyhoeddi

Bydd yr holl wybodaeth a dderbynnir yn cael ei chyhoeddi ar dudalen we'r prosiect cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl y dyddiadau cau ar gyfer cyflwyniadau.

### Adroddiad ar y Goblygiadau i Safleoedd Ewropeaidd (RIES)

Pan fydd ymgeisydd wedi darparu Adroddiad Dim Effeithiau Arwyddocaol neu Adroddiad Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) gyda'r cais, fe allai'r ExA benderfynu cyhoeddi RIES yn ystod yr archwiliad. Mae'r RIES yn adroddiad ffeithiol ar y wybodaeth a'r dystiolaeth a ddarparwyd i'r ExA ynglŷn â materion HRA yn ystod yr archwiliad hyd at ddyddiad cyhoeddi'r RIES, er mwyn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol, sef yr awdurdod cymwys, i gynnal ei HRA. Nid yw'n rhoi barn yr ExA am faterion HRA. Bydd yr ExA yn gwahodd sylwadau ar y RIES a bydd unrhyw rai a dderbynnir yn cael eu hystyried yn rhan o argymhelliad yr ExA i'r Ysgrifennydd Gwladol. Fe allai'r ExA hefyd ofyn cwestiynau yn y RIES i gadarnhau neu egluro materion sy'n parhau i fod yn weddill.

Caiff yr Ysgrifennydd Gwladol ddibynnu ar yr ymgynghoriad ar y RIES i fodloni ei rwymedigaethau o dan reoliad 63(3) Rheoliadau Cynefinoedd 2017 a/ neu reoliad 28 y Rheoliadau Morol Alltraeth.

**Hysbysiad ynghylch gwrandawiadau cychwynnol**

Mae'r Awdurdod Archwilio (ExA) yn rhoi hysbysiad ynghylch y gwrandawiadau cychwynnol canlynol:

| Dyddiad | Gwrandawiad | Amser dechrau | Lleoliad a manylion ymuno |
|---|---|---|---|
| **13 Ionawr 2025** | **Gwrandawiad Mater Penodol 1 (ISH1) ar y Gorchymyn Cydsyniad Datblygu ac egwyddorion cyffredinol y datblygiad arfaethedig** | **Cofrestru a seddau ar gael yn y lleoliad o:**<br>**13:30 o'r gloch**<br>**Proses gofrestru rithwir o:**<br>**13:45 o'r gloch**<br>**Gwrandawiad yn dechrau:**<br>**14:00 o'r gloch** | Gwesty'r Village - Chester St David's<br>Parc Dewi Sant, Ewloe,<br>Glannau Dyfrdwy CH5 3YB<br>ac<br>yn rhithwir gan ddefnyddio Microsoft Teams<br>Bydd cyfarwyddiadau llawn ar sut i ymuno ar-lein neu dros y ffôn yn cael eu rhoi o flaen llaw i'r rhai sydd wedi rhag-gofrestru |
| **14 Ionawr 2025** | **Gwrandawiad Mater Penodol 2 (ISH2) ynglŷn ag Ecoleg, Traffig a Thrafnidiaeth** | **Cofrestru a seddau ar gael yn y lleoliad o:**<br>**09:30 o'r gloch**<br>**Proses gofrestru rithwir o:**<br>**09:45 o'r gloch**<br>**Gwrandawiad yn dechrau:**<br>**10:00 o'r gloch** | Gwesty'r Village - Chester St David's<br>Parc Dewi Sant, Ewloe,<br>Glannau Dyfrdwy CH5 3YB<br>ac<br>yn rhithwir gan ddefnyddio Microsoft Teams<br>Bydd cyfarwyddiadau llawn ar sut i ymuno ar-lein neu dros y ffôn yn cael eu rhoi o flaen llaw i'r rhai sydd wedi rhag-gofrestru |

| Dyddiad | Gwrandawiad | Amser dechrau | Lleoliad a manylion ymuno |
|---|---|---|---|
| **Sylwer: Os n fydd angen unrhyw un o'r gwrandawiadau uchod mwyach, bydd hysbysiad sy'n datgan nad oes angen dyddiad penodol mwyach yn cael ei gyhoeddi ar wefan y prosiect cyn gynted ag y bo'n ymarferol, gan roi rhybudd rhesymol i bartïon â buddiant o'r penderfyniad i'w canslo.** | | | |

**Mae'n rhaid i chi gofrestru trwy lenwi'r ffurflen cymryd rhan mewn digwyddiad erbyn 30 Rhagfyr 2025 os ydych yn bwriadu cymryd rhan yn unrhyw un o'r gwrandawiadau a darparu'r holl wybodaeth y gofynnir amdani (gweler isod).**

Os ydych eisiau arsylwi unrhyw un o'r gwrandawiadau yn unig, nid oes angen i chi gofrestru oherwydd byddwch yn gallu naill ai:

**1.** gwylio ffrwd fyw o'r digwyddiad – bydd dolen i'r ffrwd fyw ar gael ar dudalen we'r prosiect yn fuan cyn y trefnwyd i'r digwyddiad ddechrau

**2.** gwylio recordiad o'r digwyddiad a fydd yn cael ei gyhoeddi ar dudalen we'r prosiect yn fuan ar ôl i'r digwyddiad orffen.

Fel arall, gallwch ddod i'r digwyddiad yn y lleoliad i arsylwi'r trafodion; fodd bynnag, er mwyn sicrhau bod digon o seddau ar gael yn y lleoliad, gofynnwn i chi gofrestru'ch bwriad i fynychu er mwyn **arsylwi yn unig** erbyn **30 Rhagfyr 2025** gan ddefnyddio'r **ffurflen cymryd rhan mewn digwyddiad**. Sylwer efallai na fydd modd cymryd rhan ar y diwrnod os nad ydych wedi cofrestru'ch dymuniad i siarad erbyn **30 Rhagfyr 2025.**

Mae'n **rhaid** i unrhyw gais i gymryd rhan mewn gwrandawiad **gynnwys** y wybodaeth ganlynol:

- Enw a chyfeirnod unigryw (sydd ar frig eich llythyr neu neges e-bost gan yr Arolygiaeth Gynllunio)
- Cyfeiriad e-bost (os yw ar gael) a rhif ffôn cyswllt
- Enw a chyfeirnod unigryw unrhyw unigolyn/ sefydliad rydych yn ei gynrychioli (os yw'n berthnasol)
- Ar gyfer digwyddiadau cyfunol, cadarnhad ynghylch p'un a fyddwch yn cymryd rhan yn rhithwir neu wyneb yn wyneb
- Cadarnhad o'r gwrandawiad(au) rydych eisiau cymryd rhan ynddo/ ynddynt, yr eitem(au) agenda rydych eisiau sôn amdani/ amdanynt, a/ neu fanylion cryno am y pwnc/ pynciau yr hoffech ei godi/ eu codi
- Ar gyfer gwrandawiadau caffael gorfodol, rhif(au) llain y tir perthnasol a ddarparwyd yn y Llyfr Cyfeirio a'r Cynlluniau Tir
- Cyfeirnod Llyfrgell yr Archwiliad (gyda rhif y paragraff/ y dudalen lle y bo'n briodol) unrhyw ddogfennau yr hoffech gyfeirio atynt

Dylid gwneud ceisiadau i gymryd rhan gan ddefnyddio'r **ffurflen cymryd rhan mewn digwyddiad** ar neu cyn **dyddiad cau gweithdrefnol A**.

**Cysylltwch â'r Tîm Achos gan ddefnyddio'r manylion cyswllt ar frig y llythyr hwn os oes arnoch angen unrhyw gymorth i fynychu unrhyw un o'r gwrandawiadau, naill ai'n rhithwir neu wyneb yn wyneb.**

### Agendâu gwrandawiadau

Bydd agendâu lefel uchel ar gyfer y gwrandawiadau hyn wedi cael eu cyhoeddi cyn y gwrandawiadau ar dudalen we'r prosiect i'ch helpu i benderfynu p'un ai cofrestru i gymryd rhan.

Ar gyfer gwrandawiadau mater penodol a gwrandawiadau caffael gorfodol, bydd yr ExA yn ceisio cyhoeddi agenda ddrafft fanwl ar dudalen we'r prosiect o leiaf 5 niwrnod gwaith cyn dyddiad y gwrandawiad. Fodd bynnag, fe allai'r union agenda ar ddiwrnod pob gwrandawiad newid yn ôl disgresiwn yr ExA. Mae'n bosibl na fydd agenda'n cael ei chyhoeddi ar gyfer gwrandawiadau llawr agored.

### Y weithdrefn mewn gwrandawiadau

Bydd y cais yn cael ei archwilio trwy broses ysgrifenedig yn bennaf a ategir gan wrandawiadau o fathau amrywiol, lle y bo angen. Gweler nodyn cyngor yr Arolygiaeth Gynllunio Cyngor i aelodau'r cyhoedd: Camau'r broses NSIP a sut gallwch leisio'ch barn i gael rhagor o wybodaeth.

Mae cyngor yr Arolygiaeth Gynllunio i aelodau'r cyhoedd yn rhoi gwybodaeth bwysig am weithdrefnau gwrandawiadau:

- Beth i'w ddisgwyl mewn digwyddiad Prosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol
- Cofrestru i siarad mewn digwyddiad Prosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol, neu ei fynychu

Amlinellir y weithdrefn sydd i'w dilyn mewn gwrandawiadau yn rheol 14 Rheolau Cynllunio Seilwaith (Gweithdrefn Archwilio) 2010. Yr ExA sy'n gyfrifol am holi unigolyn sy'n rhoi tystiolaeth ac nid yw'r broses yn rhoi llawer o gyfle i bartïon holi ei gilydd.

### Ffrwd fyw a recordio'r gwradawiad

Bydd dolen i ffrwd fyw ar gyfer pob gwrandawiad ar gael ar dudalen we'r prosiect yn fuan cyn y disgwylir i unrhyw wrandawiad agor. Bydd y ffrwd fyw ar gael i unrhyw un sy'n dymuno arsylwi gwrandawiad wrth iddo ddigwydd.

Mae'r holl wrandawiadau'n cael eu recordio, a bydd y recordiadau ar gael ar dudalen we'r prosiect cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl i'r gwrandawiad orffen. Mae'r recordiadau'n caniatáu i unrhyw aelod o'r cyhoedd sydd â diddordeb yn y cais a'r archwiliad gael gwybod beth a drafodwyd.

## Y Gymraeg

Rydym yn croesawu cyfraniadau yn Gymraeg yn ystod yr archwiliad. Bydd cyfleusterau cyfieithu ar gael mewn unrhyw wrandawiadau a gynhelir, i ganiatáu i’r rhai sy’n bresennol wneud cyfraniadau yn Gymraeg, os ydynt eisiau.

## Penderfyniadau gweithdrefnol eraill a wnaed gan yr Awdurdod Archwilio

Mae’r Awdurdod Archwilio (ExA) wedi gwneud y penderfyniadau gweithdrefnol canlynol:

### 1. Gofyn i’r ymgeisydd, heb ragfarnu, gyflwyno dogfennau ategol i wneud cais am randdirymiad o dan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017, fel y’u diwygiwyd (a adwaenir fel y Rheoliadau Cynefinoedd).

### 2. Datganiadau Tir Cyffredin (SoCGau)

O ran rhai o’r prif faterion a amlygwyd yn **atodiad C** i’r llythyr hwn, mae’r ExA yn gofyn i’r ymgeisydd a phartïon penodol â diddordeb baratoi SoCGau er mwyn ei gynorthwyo. Felly, mae’r amserlen archwilio ddrafft yn **atodiad D** i’r llythyr hwn yn pennu **dyddiad cau 1** (27 Ionawr 2026) ar gyfer cyflwyno SoCGau.

Nod SoCG yw cytuno ar wybodaeth ffeithiol a hysbysu’r ExA a’r holl bartïon eraill trwy amlygu’r meysydd y cytunir ac yr anghytunir arnynt yn gynnar yn ystod y broses archwilio. Fe ddylai ddarparu ffocws ac arbed amser trwy amlygu materion nad ydynt yn destun dadl neu nad oes angen tystiolaeth ychwanegol ynglŷn â nhw. Fe all hefyd ddatgan yn ddefnyddiol ble a pham y gallai fod anghytundeb ynglŷn â dehongli’r wybodaeth a’i pherthnasedd. Oni bai y datgenir neu y cytunir fel arall, fe ddylai’r SoCG gael ei gytuno rhwng yr ymgeisydd a pharti arall perthnasol â buddiant/ partïon eraill perthnasol â buddiant, a’i gyflwyno **gan yr ymgeisydd**.

Mae’r ExA wedi ystyried y SoCGau a baratowyd hyd yma ac mae’n gofyn i’r partïon canlynol barhau i gysylltu â’r ymgeisydd a diweddaru eu SoCGau yn unol â hynny wrth i’w safbwynt ddatblygu a’r archwiliad fynd rhagddo:

- **Cyngor Sir y Fflint**
- **Cyfoeth Naturiol Cymru**
- **CADW**
- **RSPB**
- **Cymdeithas Naturiaethwyr Glannau Dyfrdwy**
- **Network Rail**
- **National Grid Electricity Transmission**
- **Scottish Power**
- **National Gas Transmission**
- **ENI**
- **Bwrdd Gwarchod Dyfrdwy**
- **Porthladd Mostyn**
- **Liverpool Bay CCS Limited**
- **GTC Infrastructure Limited**

Yn ogystal, mae’r ExA yn gofyn i’r ymgeisydd weithio gyda’r partïon ychwanegol a restrir i ddatblygu SoCGau ar gyfer eu safbwyntiau perthynol:

- **National Highways**
- **Natural England**
- **Airbus (Maes Awyr Penarlâg)**
- **Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau**
- **SP Energy Networks**
- **Iechyd Cyhoeddus Cymru**

Ar gyfer pob un o'r meysydd hynny sy'n destun dadl, byddai'n fuddiol pe gallai pob parti amcangyfrif pa mor debygol yw'r anghytundeb o barhau erbyn diwedd yr Archwiliad. Dylid gwneud hyn gan ddefnyddio model goleuadau traffig '**Isel**', '**Canolig**' ac '**Uchel**'. Mae'r ExA yn disgwyl i'r ymgeisydd barhau i weithio gyda'r partïon â buddiant i gwblhau'r SoCGau yn derfynol erbyn **dyddiad cau 6**.

**Dylai pob un o'r SoCGau a restrir uchod ymdrin â'r erthyglau a'r gofynion yn y Gorchymyn Cydsyniad Datblygu drafft.** Dylai unrhyw barti â buddiant sydd eisiau i erthygl neu ofyniad gael ei aileirio ddarparu'r geiriad a geisir.

Pan na all y partïon gytuno ar SoCG penodol erbyn **dyddiad cau 1**, neu os oes angen i unrhyw safbwynt awdurdod lleol gael ei gymeradwyo ar lefel uwch, gofynnir i'r **ymgeisydd** gyflwyno fersiynau drafft o'r SoCG hwnnw erbyn **dyddiad cau 1**. Yna, dylai safbwynt y partïon perthnasol â buddiant gael ei gadarnhau yn ystod yr archwiliad. Mae'r amserlen archwilio ddrafft yn darparu ar gyfer cyflwyno SoCGau wedi'u diweddaru erbyn dyddiadau cau amrywiol, gan gyflwyno fersiynau terfynol erbyn **dyddiad cau 6**.

Bydd y wybodaeth a gynhwysir mewn SoCGau yn helpu'r ExA i benderfynu a oes angen cynnal unrhyw wrandawiadau mater penodol yn ystod yr archwiliad, ac yn galluogi'r ExA a'r ymgeisydd i hysbysu ynghylch gwrandawiadau o'r fath cyn iddynt ddigwydd.

## 3. Archwiliad safle gyda chwmni – awgrymu lleoliadau

Mae'r amserlen archwilio ddrafft yn **atodiad D** i'r llythyr hwn yn dangos bod yr wythnos sy'n cychwyn **16 Mawrth 2026** wedi'i neilltuo ar gyfer archwiliad safle gyda chwmni (ASI) posibl, pe byddai ei angen.

Mae'r ExA yn gofyn i bartïon â buddiant awgrymu lleoliadau i'r ExA ymweld â nhw yn rhan o ASI erbyn **dyddiad cau gweithdrefnol A** (**30 Rhagfyr 2025**). Mae'n rhaid i'r cais gynnwys:

- digon o wybodaeth i adnabod y lleoliad
- y materion sydd i'w harsylwi yn y lleoliad
- gwybodaeth ynglŷn â ph'un a ellir cyrraedd y safle trwy dir cyhoeddus
- y rheswm pam yr awgrymwyd y lleoliad.

**Dylai partïon â buddiant fod yn ymwybodol nad yw ASIau yn gyfle i wneud unrhyw sylwadau llafar i'r ExA ynglŷn â'r datblygiad arfaethedig.** Fodd bynnag, fe allai'r ExA wahodd cyfranogwyr i ddangos nodweddion penodol neu safleoedd o ddiddordeb.

Gofynnir i'r ymgeisydd baratoi amserlen ddrafft ar gyfer yr ASI i'w chyflwyno erbyn **dyddiad cau 1**. Fe ddylai gynnwys:

- lleoliadau perthnasol y cyfeiriwyd atynt yn y sylwadau perthnasol a dderbyniwyd
- unrhyw leoliadau eraill lle mae'r ymgeisydd wedi rhagfynegi effeithiau amgylcheddol arwyddocaol tebygol
- y lleoliadau a awgrymwyd gan bartïon â buddiant a gyflwynwyd erbyn **dyddiad cau gweithdrefnol A**

Mae'n rhaid i sylwadau gan bartïon â buddiant ynglŷn ag amserlen ddrafft yr ymgeisydd gael eu cyflwyno erbyn **dyddiad cau 2**.

Bydd yr ExA yn ystyried pob lleoliad safle a awgrymwyd, gan gynnwys y rhai hynny a ddarparwyd yn amserlen ddrafft yr ymgeisydd, i benderfynu a ellid ei weld o dir cyhoeddus yn ddigwmni neu a oes angen ei weld gyda chwmni. Bydd yr ExA hefyd yn ystyried a fyddai'n briodol gwneud trefniadau i ddarparu mynediad yn unig i safleoedd penodol fel y gellid eu harchwilio yn rhan o archwiliad safle digwmni ar sail angen mynediad.

Bydd yr ExA yn cyhoeddi ei amserlen derfynol o leiaf 5 niwrnod gwaith cyn dyddiad yr ASI.

## 4. Statws dogfennau archwiliad yr ymgeisydd

Mae'r ExA yn gofyn i'r ymgeisydd ddarparu, erbyn pob dyddiad cau, dogfen 'Statws dogfennau archwiliad yr ymgeisydd' wedi'i diweddaru sy'n rhestru statws mwyaf cyfredol y dogfennau a gyflwynwyd, gan gynnwys pa gopïau a ddisodlwyd yn llwyr neu'n rhannol. Mae'n rhaid i fersiwn derfynol gael ei chyflwyno cyn diwedd yr archwiliad. Dylai'r holl ddogfennau archwiliad a gyflwynir gynnwys rhif fersiwn a dyddiad.

## Dogfennau'r archwiliad

Gellir archwilio dogfennau'r cais a sylwadau perthnasol ar dudalen we'r prosiect.

## Sut i gael y wybodaeth ddiweddaraf

Bydd yr holl ddogfennau ychwanegol a gyflwynir yn ystod yr archwiliad yn cael eu cyhoeddi o dan y tab dogfennau ar dudalen we'r prosiect.

Gallwch hefyd gofrestru i gael diweddariadau e-bost.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y broses, digwyddiadau'r archwiliad neu sut i gael at y dogfennau, gallwch anfon neges e-bost at connahsquay@planninginspectorate.gov.uk neu gysylltu â ni ar 0303 444 5000.

## Llyfrgell yr Archwiliad

Er mwyn hwyluso llywio, cyfeiriwch at Lyfrgell yr Archwiliad sydd ar gael trwy glicio ar y botwm glas o dan y tab dogfennau. Mae Llyfrgell yr Archwiliad yn cael ei diweddaru'n rheolaidd drwy gydol yr archwiliad.

Mae Llyfrgell yr Archwiliad yn cofnodi ac yn darparu hyperddolen i'r canlynol:

- pob un o ddogfennau'r cais
- pob sylw a wnaed i'r archwiliad
- pob penderfyniad gweithdrefnol a wnaed gan yr Awdurdod Archwilio

Rhoddir cyfeirnod unigryw i bob dogfen a fydd yn aros yr un peth drwy gydol yr archwiliad. **Dyfynnwch y cyfeirnod unigryw o Lyfrgell yr Archwiliad pan fyddwch yn cyfeirio at unrhyw rai o ddogfennau'r archwiliad mewn unrhyw gyflwyniadau a wnewch yn y dyfodol.**

## Gwybodaeth am y dudalen 'Lleisio'ch barn'

Mae'r dudalen 'Lleisio'ch barn' ar gael ar dudalen we'r prosiect.

Bydd angen i chi roi eich cyfeirnod unigryw ('Eich cyf' sydd ar frig eich llythyr neu e-bost oddi wrth yr Arolygiaeth Gynllunio). Os ydych yn gwneud cyflwyniad ar ran unigolyn neu sefydliad arall, ac nid oes gennych eich cyfeirnod unigryw eich hun, dylech roi cyfeirnod unigryw'r unigolyn neu'r sefydliad rydych chi'n ei gynrychioli. Os nad ydych yn barti â buddiant sydd wedi cofrestru, bydd yr Awdurdod Archwilio'n penderfynu p'un ai derbyn eich cyflwyniad ai peidio yn ôl ei ddisgresiwn.

Bydd cyflwyniadau'n cael eu cyhoeddi ar dudalen we'r prosiect cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl i'r dyddiad cau perthnasol fynd heibio. Gweler ein Hysbysiad Preifatrwydd i gael rhagor o wybodaeth am gyhoeddi cyflwyniadau.

Byddwch yn gallu cyflwyno dogfen (lanlwytho ffeil), gwneud sylw testun, neu'r ddau. Gellir lanlwytho sawl ffeil ar gyfer pob cyflwyniad unigol. Dylai atodiadau electronig gael eu labelu'n glir gyda theitl y pwnc ac ni ddylent fod yn fwy na 50MB.

Mae'n rhaid i gyflwyniadau **beidio â chynnwys hyperddolenni** i ddogfennau/ tystiolaeth a gynhelir ar wefan trydydd parti (er enghraifft adroddiadau technegol, erthyglau yn y cyfryngau ac yn y blaen). Gweler nodyn cyngor yr Arolygiaeth Gynllunio Cyngor i aelodau'r cyhoedd: Cyngor ar gyflwyno sylwadau i gael gwybodaeth bwysig am wneud cyflwyniadau ysgrifenedig. Mae'n rhaid i'r holl gyflwyniadau fod mewn fformat y gellir ei weld yn llawn ar y wefan Dod o Hyd i Brosiect Seilwaith Cenedlaethol. Dylid cyflwyno crynodeb hefyd gydag unrhyw gyflwyniadau sy'n fwy na 1500 o eiriau; ni ddylai'r crynodeb hwn fod yn fwy na 10% o'r testun gwreiddiol.

Dylech ddewis y dyddiad cau perthnasol ar gyfer eich cyflwyniad ac yna, ar y dudalen we nesaf, dewis yr eitem briodol i'w chyflwyno, fel y disgrifir yn yr amserlen archwilio yn **atodiad D** i'r llythyr hwn. Gofalwch eich bod yn gwneud cyflwyniad ar wahân ar gyfer pob eitem i'w chyflwyno a **pheidiwch â dyblygu cyflwyniadau**. Os nad ydych yn credu bod eich cyflwyniad yn cyfateb i'r disgrifiad o unrhyw un o'r eitemau i'w cyflwyno, dewiswch 'Arall' a gwnewch yn siŵr fod ei deitl yn briodol.

Os byddwch yn cael unrhyw broblemau wrth ddefnyddio'r dudalen 'Lleisio'ch barn', cysylltwch â Thîm yr Achos gan ddefnyddio'r manylion cyswllt ar frig y llythyr hwn a byddant yn eich cynorthwyo.